## Triniaeth:

Mae triniaeth ar gael i bawb.

Gellir trin hepatitis C gyda chwrs syml o dabledi.

Dim ond un dos o dabledi'r dydd yw'r driniaeth. Dim pigiadau.

Nid oes gan y driniaeth lawer o sgil-effeithiau ac mae'r gyfradd llwyddiant yn uchel iawn. Bydd y driniaeth yn para 8-12 wythnos yn y rhan fwyaf o achosion.

12 wythnos ar ôl i'ch triniaeth ddod i ben, bydd prawf pellach yn cael ei wneud i wirio bod y driniaeth wedi bod yn effeithiol.

Os yw unigolyn yn parhau i fod mewn perygl o gael hepatitis C, mae'n arfer da ei brofi bob 12 mis.

'Mae hepatitis yn dawel, felly dydych chi ddim yn gwybod beth mae'n ei wneud tan i chi gael prawf.

Efallai y byddwch chi'n teimlo'n wan neu'n flinedig, ond dyna'r cyfan. Mae'r prawf a'r meddyginiaethau wedi achub fy mywyd.'

**Andy, De Cymru**

**I archebu pecyn profi am hepatitis C am ddim wedi'i ddanfon i'ch cartref, sganiwch y cod QR isod, neu ewch i: icc.gig.cymru/hep-c/**



**Mae'r llun hwn yn dangos pecyn profi gartref, mae ffyrdd eraill o brofi ar gael.**

## Cymorth:

Mae cymorth ar gael i unrhyw un y mae hepatitis C wedi'i effeithio arno drwy rif ffôn cyfrinachol yr Ymddiriedolaeth Hepatitis C: **020 7089 6221**.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

HEP C u Later

# Hepatitis C

## Cael eich profi.

## Cael triniaeth.

## Gwella.

PHW Resources - Leaflet (translated) new link.indd 1-3
16/07/2026 19:18

## Beth yw hepatitis C?

Mae hepatitis C yn feirws a gludir yn y gwaed. Mae'n cael ei drosglwyddo pan fydd gwaed rhywun â hepatitis C yn mynd i mewn i lif gwaed rhywun arall. Os na chaiff ei drin, gall achosi niwed i'r afu a chanser yr afu. Mae triniaeth yn syml ac ar gael i bawb.

## Ffactorau Risg - ydych chi wedi cael...

- Rhyw heb ddiogelwch (gyda'r posibilrwydd o gyswllt gwaed i waed) gyda rhywun a allai fod wedi cael hepatitis C?
- Triniaethau harddwch gan ddefnyddio nodwyddau nad oeddent o bosibl wedi'u sterileiddio, yn cynnwys colur lled-barhaol?
- Tyllu'r corff, tatŵ, eillio rasel hir neu driniaeth aciwbigo gan ddefnyddio offer nad oedd efallai wedi'i sterileiddio?
- Trallwysiad gwaed cyn 1996?
- Triniaeth ddeintyddol neu feddygol dramor mewn amodau aflan?
- Heb gael eich profi ar ôl cael anaf nodwydd?
- Oedd siawns bod gan eich mam hepatitis C yn ystod eich genedigaeth?
- Nodwyddau a rennir neu offer arall a ddefnyddir i chwistrellu a sniffian cyffuriau, yn cynnwys pibellau crac?




**Mae'r llun hwn yn dangos prawf smotyn gwaed sych. Mae ffyrdd eraill o brofi ar gael.**

## Symptomau Cynnar Haint Hepatitis C:

Nid yw pawb yn profi symptomau haint hepatitis C cynnar. Weithiau gellir camddehongli symptomau fel salwch arall, ac efallai na fydd unigolyn yn profi pob symptom.

- Tymheredd uchel (dros 38C)
- Blinder
- Diffyg archwaeth
- Poen yn yr abdomen
- Teimlo'n sâl/chwydu
- Clefyd melyn (y croen neu'r llygaid yn troi'n felyn)

Gallwch ddysgu rhagor am symptomau hepatitis C drwy ymweld â'n gwefan yma: icc.gig.cymru/hep-c/

PHW Resources - Leaflet (translated) new link.indd 4-6 16/07/2026 19:18